**RHEOLWR DIGWYDDIADAU A LLETYGARWCH**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Yn gyfrifol am: Cydlynydd Digwyddiadau a Rhaglenni, a Goruchwylwyr Digwyddiadau (Achlysurol)
Yn atebol i: Pennaeth Datblygu

**Pwrpas y Swydd**
Arwain y gwaith o gynllunio, cydlynu a darparu digwyddiadau a lletygarwch, gan sicrhau profiad o'r safon uchaf i gwsmeriaid, perfformiad gweithredol cadarn, a bod targedau masnachol yn cael eu cyrraedd.

**Prif Gyfrifoldebau**

Datblygu Busnes a Gwerthiant

- Nodi a sicrhau cyfleoedd busnes newydd ar draws y sectorau corfforaethol, preifat a chymunedol
- Cyrraedd a rhagori ar dargedau gwerthu ar gyfer llogi'r lleoliad, digwyddiadau a gwasanaethau cysylltiedig
- Datblygu a gweithredu strategaethau gwerthu i gynyddu deiliadaeth a refeniw
- Creu cysylltiadau yn rhagweithiol drwy rwydweithio, gwaith maes a digwyddiadau'r diwydiant

Rheoli'r Berthynas â Chleientiaid

- Bod yn brif bwynt cyswllt i gleientiaid o'r ymholiad cyntaf i'r digwyddiad ei hun
- Meithrin a chynnal perthynas hirdymor â chleientiaid corfforaethol, asiantaethau, a busnesau lleol
- Cyflwyno cynigion a rhoi cyflwyniadau wedi'u teilwra i ddarpar gleientiaid

Cymorth Cydlynu Digwyddiadau

- Cydweithio â thimau profiadau a thechnegol i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddidrafferth
- Helpu cleientiaid i gynllunio eu digwyddiadau, gan sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni heb fynd dros y gyllideb
- Goruchwylio'r gwaith o drosglwyddo digwyddiadau i dimau cyflawni, gan sicrhau bodlonrwydd cleientiaid a sicrhau ein bod yn cael adborth gan gleientiaid, ac yn gweithredu ar yr adborth hwnnw

Tîm Bwyd a Diod

- Gweithio'n agos gyda thîm Bryn Williams yn Theatr Clwyd i sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddidrafferth, a bod disgwyliadau cleientiaid yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth weithredol
- Bod yn brif bwynt cyswllt rhwng cleientiaid a'r adran Bwyd a Diod, gan gyfathrebu gofynion digwyddiadau, anghenion deietegol a cheisiadau arbennig yn glir ac yn effeithiol

- Cefnogi cyfleoedd gwerthu ychwanegol drwy hyrwyddo cynigion Bwyd a Diod, gan gynnwys bwydlenni personol, pecynnau diodydd, a chynigion uwchraddio

Marchnata a Hyrwyddo

- Gweithio gyda'r timau marchnata a datblygu i hyrwyddo gofod a phecynnau digwyddiadau
- Cyfrannu at ymgyrchoedd digidol, taflenni a deunyddiau hyrwyddo
- Cynrychioli Theatr Clwyd mewn sioeau masnach, digwyddiadau rhwydweithio ac arddangosfeydd

Adrodd a Gweinyddu

- Bod yn rheolwr llinell i'r Cydlynydd Digwyddiadau a Rhaglenni, gan sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol:
    - Cadw cofnodion cywir o weithgarwch, llif a rhagolygon gwerthiant
    - Cynhyrchu adroddiadau rheolaidd am berfformiad gwerthu
    - Rheoli contractau, prisio ac anfonebu yn gyson â pholisïau'r cwmni

- Unrhyw ddyletswyddau eraill y gofynnir amdanynt gan y Pennaeth Datblygu

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad helaeth o werthu ym maes digwyddiadau, lleoliadau neu letygarwch
- Profiad helaeth o ddarparu digwyddiadau
- Enw da am gyrraedd neu ragori ar dargedau refeniw
- Profiad o reoli a gwerthu gofod ar gyfer digwyddiadau a llogi corfforaethol neu breifat
- Sgiliau cyfathrebu a thrafod ardderchog
- Gallu rheoli nifer o brosiectau a dyddiadau terfyn yn effeithiol
- Agwedd ragweithiol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac ar ganlyniadau
- Aelod da o dîm sy'n gallu cydweithio a meithrin perthynas effeithiol gyda chydweithwyr ar draws gwahanol dimau a lefelau yn y cwmni

**Dymunol**

- Gwybodaeth am fethodolegau rheoli prosiectau
- Brwdfrydedd clir dros adloniant a theatr byw, a thros ddarparu gwasanaeth ardderchog
- Profiad o hyfforddi a mentora aelodau tîm
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar
- Trwydded yrru lawn